**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01862/20
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Mehefin 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mehefin ynghylch Deiseb P-05-972 Dylid darparu o leiaf bedair awr y dydd o addysg fyw i bob disgybl tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19.

Rydym yn ymwybodol bod gan rai ysgolion y gallu i ffrydio gwersi byw ar-lein yn ddiogel i ddysgwyr, ac yn unol â hynny rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector Addysg i gytuno ar ganllawiau i adlewyrchu hyn, yn ddarostyngedig i amodau penodol. Maent ar gael yma: https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-gefnogi-dysgu-o-bell/

Diogelu plant yw'r flaenoriaeth i ni o hyd, ond mae gan ysgolion yr opsiwn o ffrydio gwersi byw ar-lein os yn briodol. Wrth wneud hynny, dylai ysgolion gadw'n gaeth at eu polisïau diogelu a chyfeirio at ddogfen 'Ffrydio byw – arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg' Llywodraeth Cymru, sydd ar gael yma: https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-arferion-ac-egwyddorion-diogelu-i-ymarferwyr-addysg/ ynghyd ag unrhyw ganllawiau perthnasol gan awdurdodau lleol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi faint o wersi fydd yn cael eu ffrydio yn fyw gan mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am ddefnyddio gwersi o'r fath yn ôl eu gallu i wneud hynny a threfniadau lleol ar gyfer rhyngweithio gyda'u dysgwyr.

Yr ysgolion unigol, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol, sy'n parhau i fod yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer ffrydio gwersi byw, felly bydd angen iddynt gadarnhau'r sefyllfa gyda'u Hawdurdod Lleol.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.